



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol  
Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol  
Cyfarfod Agored 14 Hydref 2021, 09:30  
Lleoliad: trwy Microsoft Teams**

<b>Yn bresennol:</b>		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
<b>Yn bresennol:</b>		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Matthew Browne	(MB)	Pennaeth Adnoddau a Thalent (ymunodd ar gyfer Eitem Agenda 3.3)
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd (cyrraedd am 09.43)
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr (cyrhaeddodd am 10:06)
Andrew Jones (dirprwyo ar ran Meng Khaw)	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Sarah Morgan	(SM)	Pennaeth Profiad y Gweithiwr
Joe O'Brien	(JOB)	Rheolwr Datblygu Systemau'r Gweithlu, Pobl/Gweithlu/AD (ymunodd ar gyfer Eitem 3.1 yr Agenda)
Lisa Whiteman	(LW)	Pennaeth Datblygu, Dylunio a Dysgu Sefydliadol (ymunodd ar gyfer Eitem 5.1 ar yr Agenda)
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu Iechyd, a Chyfarwyddwr Meddygol
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd ochr staff
<b>Dyddiad: 15 Hydref 2021</b>	<b>Fersiwn: v0.0</b>	<b>Tudalen: 1</b>

<b>Ysgrifennydd</b>	
Andrew Morton	Swyddog Cymorth y Bwrdd

<i>Dechreuodd y cyfarfod am 09:30</i>	
<b>PODC 23/2021 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b>	
<p>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol, a nododd, oherwydd yr ymateb parhaus i bandemig COVID-19 ac yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.</p> <p><b>Nododd</b> y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.</p> <p><b>Nododd</b> y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol fis Ionawr 2022</p>	
<b>PODC 24/2021</b>	<b>Datganiadau o Fuddiannau</b>
<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.</p>	
<b>Eitemau ar gyfer Sicrwydd</b>	
<b>PODC 25.1/2021</b>	<b>Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd - Ffocws Pobl a Datblygiad Sefydliadol</b>
<p>Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan NL a JOB gan ddefnyddio data byw o'r Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd (PAD).</p> <p>Nodwyd bod rhai aelodau o'r Pwyllgor wedi dod ar draws materion yn ymwneud â'r PAD ac roedd y rhain yn cael eu datrys. Roedd JOB wedi darparu copïau pdf o'r dangosfwrdd a ddosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod ac a oedd hefyd ar gael i'r cyhoedd.</p> <p>Archwiliwyd nifer o ddangosfyrddau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Absenoldebau'n gysylltiedig â Covid-19;</li><li>• Absenoldeb Salwch: nodwyd bod cyfraddau absenoldeb salwch bellach wedi dychwelyd i lefelau cyn-Covid-19;</li><li>• Twf a throsiant o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru: roedd y data hwn a ddaliwyd wedi caniatáu dadansoddiad ychwanegol, gan ddangos bod mwyafrif yr ymadawyr yn gadael oherwydd eu bod wedi cwblhau contractau tymor penodol; tra bod eraill yn gadael oherwydd ymddeoliad neu ddyrchafiad. Roedd y defnydd o holiaduron ymadael bellach yn cael eu datblygu ymhellach i ddeall rhesymau ymadawyr dros adael.</li><li>• Brechiad Staff COVID-19: Roedd 6% o'r staff heb eu brechu ar hyn o bryd. Byddai gwaith yn y dyfodol yn cynnwys darparu data atgyfnerthu ar y dangosfwrdd.</li></ul>	

Tynnwyd sylw gan JOB at y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu dangosfyrddau newydd i adlewyrchu: Amser i Logi; Hyfforddiant Statudol a Gorfodol; Gwerthusiadau; Asesiad risg gweithlu Covid- 19, a Chydraddoldebau. Nodwyd bod pryderon ynghylch integreiddio'r Cofnod Staff Electronig (ESR) i ganiatáu lawrlwytho'r data yr oedd ei angen i ddiweddarau dangosfyrddau amrywiol, a oedd yn cael eu harchwilio.

Nododd yr aelodau gyfradd gyfredol absenoldeb salwch tymor hir oherwydd straen, iselder a gorbryder. Nodwyd ei fod yn fater tymor hwy, ac amlygwyd hyn i'r Gyfarwyddiaeth ac i'r Arweinwyr Adrannol er mwyn ymchwilio ymhellach iddo.

Gofynnodd y Pwyllgor am, a derbyniodd sicrwydd, fod cyllideb briodol ar gyfer y nifer fawr o staff a benodwyd yn ddiweddar ac nad oedd unrhyw bryderon sylfaenol am gyllid.

Dywedodd RBW wrth y Pwyllgor y byddai'r nifer sy'n derbyn y brechiad fflw yn ystod tymor yr Hydref/Gaeaf 2021/22 yn cael ei gofnodi ar y dangosfwrdd eleni. Nododd y byddai'r data'n anodd ei ddal gan y gallai'r brechiadau gael eu rhoi mewn sawl lleoliad, ac roedd diweddarau'r data o ffynonellau allanol y brechlyn yn dibynnu ar unigolion yn hunan-adrodd.

Nododd AJ y tebygolrwydd cynyddol mewn heintiau anadlol lluosog yn y boblogaeth y gaeaf hwn ac roedd yn awyddus i gynorthwyo o ran datblygiad y dangosfwrdd i adlewyrchu'r cyfraddau heintiau hyn ac absenoldebau cysylltiedig.

Amlygodd y Pwyllgor ei bod yn ymddangos bod amrywiadau yn y cyfraddau salwch sy'n ymwneud â band cyflog - gyda llawer llai o absenoldebau wedi'u cofnodi yn y bandiau cyflog uwch. Nododd NL hyn, a byddai'n adolygu ac yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod.

#### **Cam Gweithredu: NL**

Diolchodd MM i NL a JOB am gyflwyno'r dangosfwrdd. Trafododd y Pwyllgor yr angen i fyfyrion ar sut y gallai ddefnyddio'r data yn y dangosfwrdd i'w gefnogi yn ei rôl sicrwydd i'r Bwrdd.

Cytunwyd bod y dangosfwrdd yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ar y meysydd a drafodwyd, a bod y tîm yn mynd i'r afael â materion a godwyd yn y data. Cytunwyd bod y Pwyllgor yn ystyried y PAD yn ei gyfarfod nesaf.

#### **Cam gweithredu NL / LB**

### **PODC 25.2/2021 | Polisiâu Sefydliadol - Diweddariad Chwemisol**

Derbyniodd y Pwyllgor y papur Diweddariad Polisiâu Sefydliadol (Cyf 3.2a, b, c PODC 141021). Cafwyd crynodeb o'r papur gan HB.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymryd sicrwydd** o ran y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- **Cymeradwyo'r** rhestr o bolisïau a gweithdrefnau y cynigiwyd eu tynnu oddi ar y gofrestr am nad oeddent bellach yn berthnasol neu eu bod wedi cael eu disodli gan bolisïau eraill, o fewn tabl un yr adroddiad.

<b>PODC 25.3/2021</b>	<b>Diweddariad Recriwtio ynghylch Achos Busnes Diogelu Iechyd</b>
-----------------------	---

Derbyniodd y Pwyllgor y Diweddariad Recriwtio - Papur Achos Busnes y Gwasanaeth Amddiffyn Iechyd Integredig (Cyf 3.3 PODC 141021). Diweddarodd MB y Pwyllgor ynghylch datblygiad recriwtio ac esboniodd y defnydd o'r traciwr o fewn y broses recriwtio, gan sicrhau y cydymffurfiwyd â llinellau amser.

Diolchodd MM i MB am yr adroddiad manwl, gan ganmol y tîm am y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r prosiect hwn. Nododd MM mai prin oedd yr amrywiaeth yn y penodiadau, gyda nifer fach o unigolion BAME yn cael eu penodi. Nododd MB fod yr ymgyrch recriwtio yn darparu llinell sylfaen ar gyfer recriwtio safonol ar gyflymder, a bod gwaith yn mynd rhagddo gyda SM i drafod sut y gellid datblygu'r llinell sylfaen hon ar lefel sefydliadol mewn ymgyrchoedd yn y dyfodol. Ychwanegodd NL fod gwaith yn parhau gyda'r rhwydweithiau staff i wella cyfradd cofnodi ethnigrwydd a nodweddion gwarchoddedig eraill i sicrhau cywirdeb y data.

Nododd MM fod pedair swydd yn agosáu at eu dyddiadau cau recriwtio, a gofynnodd am arwydd o ddirifoldeb yr oedi hwn ac unrhyw effaith ar wasanaethau. Hysbysodd AJ y Pwyllgor fod llithriad o ran dwy o'r swyddi hyn, a bod cynlluniau ar y gweill i lenwi'r swyddi hyn. Roedd y ddwy swydd arall yn swyddi arbenigol uwch a oedd, o ran eu natur, yn anodd recriwtio iddynt. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y tîm yn adolygu gallu'r gweithlu, ac yn edrych i benodi i swyddi dros dro i sicrhau darpariaeth gwasanaeth briodol a digonol ar gyfer y 6 mis nesaf.

**Cafwyd sicrwydd** gan y Pwyllgor ar reoli'r broses recriwtio ar gyfer yr Achos Busnes Diogelu Iechyd.

**Eitem i'w Gymeradwyo**

<b>PODC 26.1/2021</b>	<b>Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020-21</b>
-----------------------	---

Derbyniodd y Pwyllgor bapur Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020-2121 (Cyf 4.1a, b PODC 141021). Cyflwynodd SM y papur gan grynhoi'r uchafbwyntiau.

Cafwyd ganmoliaeth gan y Pwyllgor i'r tîm am faint o waith a gyflawnwyd o fewn y maes hwn, a chafwyd crynodeb yn yr adroddiadau hyn, a gofynnwyd i SM beth oedd y gwelliant mwyaf sylweddol a wnaed ar lefel sefydliadol. Ymatebodd SM mai'r gwelliannau yn y data, y cyfraddau datgan a'r adborth

o'r rhwydweithiau ar brofiadau personol, oedd y dangosyddion mwyaf arwyddocaol o sefydliad mwy cynhwysol.

Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch lle roedd angen gwaith pellach, nododd SM y gellid gwella gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol neu amrywiaeth a chynhwysiant yn sefydliadol.

Adleisiwyd hyn gan RBW, ac ychwanegodd fod angen cefnogaeth bellach i reolwyr, er enghraifft i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o'r broses recriwtio yn sefydliadol i symud ymlaen yn y maes hwn.

Nododd y Pwyllgor nad oedd yr amcanion yn yr adroddiad wedi'u mapio'n glir o ran y gwaith a wnaed, megis amcan pedwar sy'n ymwneud â hygyrchedd. Nododd SM fod gwaith yn y maes hwn wedi'i oedi oherwydd COVID-19, ond ei fod wedi aildechrau ers hynny. Nododd fod adroddiad Cydraddoldeb wedi'i gyflwyno yn flaenorol i'r Pwyllgor bob chwarter i ddarparu goruchwyliaeth a sicrwydd o gynnydd yn erbyn yr amcanion hyn. Cytunwyd i ychwanegu Adroddiadau Cydraddoldeb Chwarterol at gynllun gwaith y Pwyllgor.

#### **Cam Gweithredu: SM / LB**

Diolchodd MM i SM a'r tîm am yr adroddiad, gan ganmol yr arweinyddiaeth angerddol, ac ychwanegodd fod gwaith sylweddol wedi datblygu yn y maes hwn.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020-21, gan nodi y byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar ôl ei chymeradwyo.

#### **PODC 26.2 / Adroddiad Blynyddol y Gweithlu 2020-21**

Derbyniodd y Pwyllgor bapur Adroddiad Blynyddol Adroddiad y Gweithlu 2020-21 (Cyf 4.2a, b PODC 141021).

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Gweithlu 2020-21, gan nodi y byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar ôl ei chymeradwyo.

#### **PODC 26.3/2021 Cofnodion, Log Gweithredu a Materion sy'n Codi**

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 a'r Log Gweithredu (Cyf. 4.3 PODC 141021).

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 fel cofnodion gwir a chywir o'r cyfarfod.
- **Cymeradwyo** cau tri cham gweithredu oedd wedi'u cwblhau ar y Log Gweithredu.

Aeth NL a RBW i'r afael â'r cam gweithredu agored yn ymwneud â brechu staff; gwnaed digon o waith o ran staff y rheng flaen ar y statws brechu.

Byddai'r Pwynt Gweithredu hwn yn cael ei ddiweddarau a'i gau ar y log yn dilyn y diweddariad llafar hwn.

**Cam Gweithredu: AM**

**PODC 26.4/2021 | Cadarnhad o Gam Gweithredu'r Cadeirydd**

Derbyniodd y Pwyllgor y Cadarnhad o Gam Gweithredu'r Cadeirydd (Cyf 4.4.PODC 141021).

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi'r** achlysur pan gymerwyd Cam Gweithredu'r Cadeirydd;
- **Cymryd sicrwydd** bod y camau wedi'u cymryd yn unol ag Adran 2 y Rheolau Sefydlog;
- **Cadarnhau** Cam Gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo:
  - o Polisi Secondiad Cymru Gyfan;
  - o Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2020–21.

**Eitemau i'w Trafod**

**PODC 27.1/2021 | Ein Sgwrs - Egwyddorion ar gyfer Dyfodol Gwaith**

Derbyniodd y Pwyllgor y cyflwyniad Egwyddorion ar gyfer Dyfodol Gwaith (5.1b PODC 141021 - Egwyddorion ar gyfer Dyfodol Gwaith). Cyflwynodd NL a LW y diweddariadau diweddar o'r Cyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen diweddaraf: - Gweithio Lle / Sut mae'n gweithio orau.

Casglwyd yr argymhellion y cytunwyd arnynt gan y Tîm Gweithredol Busnes fis Medi o sawl ffynonellau, gan gynnwys: Cyfweiliadau â'r Tîm Gweithredol; Sefydliadau GIG yng Nghymru; Nod Llywodraeth Cymru bod 30% o weithwyr yn gweithio'n eu cartref neu'n agos at eu cartref; a Thwf sefydliadol a'r effaith ar ei ystad.

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys aelodau o'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol; Cynrychiolwyr Undebau Llafur; Gwybodeg; Rhwydwaith Amrywiaeth Staff; Cynrychiolwyr Cyfathrebu a Staff.

Nod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd datblygu egwyddorion drafft i arwain treial deuddeg mis i 'Weithio lle a sut mae'n gweithio orau' trwy wneud y mwyaf o'r buddion a nodwyd, defnyddio hyblygrwydd a dewis ychwanegol, ac yna lleihau unrhyw effeithiau negyddol o'r newidiadau hyn i batrymau gwaith. Byddai'r treial yn adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth sydd newydd ei ailstrwythuro a fyddai'n galluogi ac yn gwerthuso'r treial trwy ddarparu pecynnau cymorth a chyflwyno pecynnau hyfforddi, polisiau a phrosesau i reolwyr, timau ac unigolion a oedd yn addas i'r dull penodol hyn o weithio.

Roedd pedwar maes allweddol wedi'u nodi i'w hystyried:

- Profiad a Chysylltedd
- Llesiant a Chynhwysiant
- Ystadau, Iechyd a Diogelwch, a Thechnoleg
- Polisi a Chefnogaeth

O ran staff ag anableddau: cytunwyd y byddai staff ag anableddau yn cael unrhyw offer angenrheidiol yn eu cartref ac yn eu swyddfa.

Roedd yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun yn seiliedig ar amod Llywodraeth Cymru i weithio gartref, gan aros yn ei le ar gyfer yr Hydref a'r Gaeaf 2021/22. Byddai'r Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried egwyddorion drafft erbyn diwedd mis Tachwedd.

Nododd y Pwyllgor fod yr ymateb i'r pandemig wedi nodi buddion posibl i'r Sefydliad o ran ffyrdd o weithio, na ddylid eu colli. Gofynnodd y Pwyllgor am archwilio'r posibilrwydd o weithio mewn hybiau, gan gynnwys gweithio mewn hybiau ar draws gwahanol sectorau. Ymatebodd LW fod hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r ystyriaeth o unrhyw ad-drefnu yn y gweithle.

Myfyriodd y Pwyllgor ar y cydbwysedd sydd ei angen i gefnogi gweithio ystwyth, tra'n sicrhau bod yr anghenion sefydliadol yn cael eu diwallu. Cytunodd LM â hyn gan nodi fod pwyslais yn cael ei roi ar hyblygrwydd, ac ar sicrhau bod y sefydliad yn cyflwyno'r profiad staff gorau posibl trwy aros yn gysylltiedig ac i atal arwahanu posibl.

O ran canlyniadau mesuradwy, sicrhawyd y Pwyllgor y byddai'r canlynol yn cael ei roi ar waith:

- Byddai gwaith o fewn y Tîm Gwybodaeth a Phrofiad Gweithwyr yn sefydlu mesurau i'w defnyddio yn y broses werthuso;
- Byddai system archebu ar gyfer lleoedd gwaith yn cael ei datblygu ar gyfer yr ystad gyfan;
- Byddai canllawiau'n cael eu datblygu i reolwyr werthuso perfformiad a chanlyniadau;
- Byddai gwybodaeth am "Ein Sgwrs" yn cael ei hystyried a'i datblygu gan ganiatáu ad-drefnu gofod gwaith cydweithredol a dysgu.

Diolchodd MM i LW am y cyflwyniad, gan fod y gwaith yn parhau ac yn esblygu'n gyson, cytunwyd y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol fis Ionawr.

**Cam Gweithredu: NL/LB**

#### **QSIC 27.2/2021 | Dadansoddiad o Gydraddoldeb y Gweithlu**

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Ddadansoddiad o Gydraddoldeb y Gweithlu (5.2b PODC 141021 - Dadansoddiad Bwlch Cydraddoldeb).

Gwnaed y Dadansoddiad Bwlch trwy ddefnyddio arbenigedd mewnol i fynd i'r afael â bylchau hysbys o fewn y Sefydliad. Mae'r gwaith hwn wedi ymestyn ar draws sawl Cyfarwyddiaeth: Pobl a Datblygiad Sefydliadol; Iechyd, Gwybodaeth ac Ymchwil; Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Diogelu Iechyd a Sgrinio.

Nodwyd pum maes allweddol lle roedd bylchau yn bodoli;

- Gweithlu;
- Ymgysylltu â'r rhwydwaith;
- Monitro Data a Defnyddwyr Gwasanaeth;
- Monitro Canlyniadau; ac
- Ymgysylltu â Chymunedau lle roedd nifer isel yn defnyddio gwasanaethau.

Nodwyd bod gwaith mewn rhai meysydd yn dibynnu ar waith mewn meysydd eraill, megis y gofyniad i ddatblygu'r data priodol i ategu'r broses o wneud penderfyniadau.

Byddai'r gwaith yn cael ei wneud mewn dau gam gwahanol, byddai'r cam cyntaf, y chwe mis sy'n parhau tan fis Mawrth 2022 yn mynd i'r afael â chamau gweithredu tymor byr a hefyd yn gwneud gwaith paratoi i alluogi gwaith pellach yn yr ail gam.

Nodau allweddol Cam Un fyddai:

- Hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer yr holl staff Band 8a ac uwch (tua 390 o bobl);
- Adolygiad o'r broses recriwtio gan nodi pam nad oedd rhai grwpiau'n symud ymlaen i gyfswiliad;
- Cyflwyno lleoliadau gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru;
- Datblygu strategaeth casglu data;
- Sgrinio i nodi rhwystrau sy'n effeithio ar amrywiaeth defnyddwyr gwasanaeth a llunio cynllun gweithredu;
- Gweithredu system briodol i ymgysylltu â chymunedau a dogfennu adborth.

Byddai'r ail gam yn mynd i'r afael â meysydd gwaith y mae angen ymgynghori arnynt ac ystyriaeth bellach gan y Tîm Gweithredol Busnes.

Nodau allweddol Cam Dau fyddai:

- Cyflwyno hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant i staff band 7,6 a 5;
- Hyrwyddo a monitro ymhellach y nifer sy'n derbyn pecyn hyfforddi Hybu Sgiliau;
- Cyflwyno prentisiaethau ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
- Gweithio gyda phrifysgolion a sefydliadau tebyg i ddeall yn well y rhwystrau sy'n bodoli o ran ymgeisio am swyddi gwag o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Ymgorffori'r system ymgysylltu ymhellach a nodi dangosyddion perfformiad allweddol; a
- Gweithredu camau o'r strategaeth casglu data.



Roedd gweithrediad llwyddiannus y strategaeth hon yn dibynnu ar gynigion buddsoddi ar gyfer 2022-2023, a byddai hyn yn effeithio ar adnoddau a chapasiti. Daeth Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru i rym ar 1 Ebrill 2021 ac roedd yn rhaid ei hystyried mewn perthynas â gwaith yn y maes hwn.

Byddai'r gwaith hwn yn cyfrannu at ymgynghori a datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) newydd y disgwylir iddo ddechrau yn Haf 2023.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed hyd yma, a'r gweithgaredd a gynlluniwyd i symud ymlaen yn y maes hwn. Cododd y Pwyllgor bryderon efallai na fyddai digon o adnoddau i gwblhau'r gwaith. Cytunodd NL fod yr amserlen a ragwelwyd yn her, ond y byddai'n cael ei gyrru gan y sefydliad cyfan sy'n gweithio o fewn eu Timau a'u Cyfarwyddiaethau unigol.

Trafododd y Pwyllgor rôl y Bwrdd i arwain ar yr agenda hon, er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ddigonol gan y Bwrdd yn weladwy i'r sefydliad, gan nodi ei bwysigrwydd.

Diolchodd MM i SM am y cyflwyniad, a chytunwyd y dylid ychwanegu diweddariad chwarterol ar Gydraddoldebau i gynllun gwaith y Pwyllgor i sicrhau bod y Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn y maes gwaith hwn.

**Cam Gweithredu: NL / LB**

#### **Eitemau i'w Nodi**

##### **PODC 28.1/2021 | Cynllun Gwaith y Pwyllgor**

Nododd y Pwyllgor **Gynllun Gwaith** y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (Cyf: 6.1 PODC 141021 - Cynllun Gwaith), gan ychwanegiad y diweddariad Cydraddoldeb chwarterol i'w gynnwys.

##### **QSIC 29/2021 | Gweinyddiaeth i Gloi**

##### **29.1/2021 | Unrhyw Fater Arall**

Ni chodwyd yr un.

##### **29.2/2021 | Adborth y Pwyllgor**

Gwahoddwyd y Pwyllgor i roi adborth o'r cyfarfod ar ôl y cyfarfod trwy e-bost, gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella.

##### **29.3/2021 | Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 13 Ionawr 2022

*Daeth y cyfarfod i ben am 11:50*